TAG UG/UWCH

2020U30-1

S24-2020U30-1

**DYDD MERCHER, 22 MAI 2024 – PRYNHAWN**

***WEDNESDAY, 22 MAY 2024 – AFTERNOON***

# CYMRAEG: AIL IAITH – UG Uned 3
## DEFNYDDIO IAITH, A BARDDONIAETH
## (Papur Ysgrifenedig)

2 awr

*2 hours*

### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

### *ADDITIONAL MATERIALS*

*A WJEC pink 16-page answer booklet.*

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ar wahân sy'n cael ei roi i chi.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

### *INSTRUCTIONS TO CANDIDATES*

*Use black ink or black ball-point pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*Write your answers in the separate answer booklet provided.*
*The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.*

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

### *INFORMATION FOR CANDIDATES*

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*
*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** (i) Darllenwch y neges destun isod. Cyfieithwch y neges o’r Saesneg i’r **Gymraeg**. [10]

> Annest,
> Do you like comedy films? Elis and I are going to the cinema tomorrow. Would you like to come with us? It will be fun. Gruff x

(ii) Mae Steve Backshall yn gyflwynydd teledu sy’n hoff iawn o natur. Mae e’n enwog am gyflwyno rhaglenni teledu fel *Deadly 60*, *Lost Land of the Tiger* a *Deadly Dinosaurs*. Mae e wedi dechrau dysgu Cymraeg.

Darllenwch y darn isod a newidiwch y **10 ffurf** sydd wedi eu rhifo a’u tanlinellu i’r **person cyntaf**.
**Peidiwch â chopïo’r darn isod.** [20]

[1]Dechreuodd e ddysgu Cymraeg pan roedd rhaid [2]iddo fe ddod i’r Bala i baratoi ar gyfer antur yn Rwsia. [3]Roedd e hefyd wedi cael swydd newydd ym Mhrifysgol Bangor. Cyn hynny [4]doedd e ddim wedi meddwl dysgu Cymraeg. [5]Cafodd e gynnig i fynd ar y rhaglen *Iaith ar Daith*. [6]Roedd e’n hapus iawn cael Iolo Williams yn athro [7]arno fe. [8]Mwynheuodd e’r profiad yn fawr iawn. [9]Ei hoff air newydd yw hiraeth. [10]Hoffai e ddysgu Cymraeg i’r teulu nawr!

(iii) Mae’r Urdd yn chwilio am berson ifanc i weithio yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd.

Ysgrifennwch **lythyr ffurfiol**, tua **un** ochr tudalen yn ceisio am y swydd.

Gallech chi sôn am:

- Pam hoffech chi’r swydd
- Helpu gyda gwahanol weithgareddau, e.e. mynd i bwll nofio, sinema, rafftio dŵr gwyn, mynd am dro
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc
- Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn dda
- Sgiliau a phrofiad o weithio/ gwirfoddoli
- Cymwysterau e.e. TGAU, Gwobr Dug Caeredin
- Atyniadau lleol Caerdydd, e.e. Canolfan y Mileniwm, Castell Caerdydd, Amgueddfa Sain Ffagan, Ffair y Barri, Stadiwm Dinas Caerdydd.

Anfonwch **lythyr cais ffurfiol** at Ffion Jones, Gwersyll yr Urdd Caerdydd, Canolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd, CF10 5AL.

Rhoddir marciau am ysgrifennu cywir. Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus cyn dechrau. [20]

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Darllenwch yn ofalus y pennill canlynol o'r gerdd 'Twyll' gan Myrddin ap Dafydd ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Cil-dwrn ein cydymdeimlad,
hatling ein help llaw
at dractorau,
at helynt yr holl dymhorau,
ac at logau banc y ni a'r Ianc.

(i) Beth ydy prif neges y pennill hwn a sut mae'n berthnasol i weddill y gerdd?

Ysgrifennwch tua **un** ochr tudalen. [25]

(ii) Rydyn ni'n gweld bod y bardd yn defnyddio'r technegau canlynol yn y gerdd 'Twyll':

- Rhestru
- Ailadrodd
- Cyflythrennu

Ydy'r technegau uchod yn effeithiol yn y gerdd? Trafodwch.

Ysgrifennwch tua **un** ochr tudalen. [25]

(iii) Mae Myrddin ap Dafydd yn dweud ein bod yn cymryd mantais o bobl yn y gwledydd tlawd achos bod pris eu bwyd yn rhad. Beth ydy'ch barn chi am hyn?

Gallech chi sôn am:

- Ble rydych chi'n prynu bwyd a pham?
- Ydych chi'n meddwl bod hi'n bwysig prynu bwyd lleol?
- Sut gallwn ni helpu ffermwyr Masnach Deg?

Ysgrifennwch tua **un** ochr tudalen. [20]

**DIWEDD Y PAPUR**

# TUDALEN WAG